
# amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 2

Enw



DARLLENWCH
Genesis 29: 1-30



ADNOD ALLWEDDOL
Genesis 29: 28

*Gofynnwch i rywun eich helpu i ddod o hyd i'r adnod.*

## Stori 4 Jacob yn cael gwraig

Aeth Jacob i weld ei ewythr Laban a'i deulu yn Haran. Doedd e ddim wedi'u gweld nhw o'r blaen a doedden nhw ddim yn gwybod ei fod ar y ffordd. Ar ôl taith hir, cwrddodd Jacob â bugeiliaid ger ffynnon gyda'u defaid.



"O ble rydych chi'n dod?" gofynnodd Jacob.

"O Haran," medden nhw.

"Ydych chi'n nabod Laban?" gofynnodd Jacob.

"Ydyn," atebon nhw, "dyma'i ferch, Rachel, gyda defaid ei thad."

Mae'n siwr bod Jacob wrth ei fodd o gael cyfarfod â'i berthynas! Roedd Duw wedi addo amddiffyn Jacob ac roedd wedi'i arwain i'r lle iawn.

**C Llanwch y bylchau i roi enwau'r bobl yn y stori.**


**J __ __ __ __     R __ __ __ l**

**b __ __ e i __ __ __ __d     L __ __ __ __**

4

Helpodd Jacob Rachel i roi dŵr i'r defaid ac yna dywedodd wrthi eu bod yn perthyn. Rhedodd Rachel adref a dweud wrth ei thad.

Gofynnodd Laban i Jacob aros gyda nhw ac fe wnaeth Jacob hynny a gweithio dros ei ewythr. Roedd gan Laban ferch arall o'r enw Lea.




6

**C Llanwch yr enwau ar y 'goeden deulu'.**



Ar ôl mis, dywedodd Laban, "Mae'n rhaid i ti gael cyflog am weithio i mi. Faint wyt ti am ei gael?"

Nid am arian y gofynnodd Jacob. Roedd yn caru Rachel a dywedodd y byddai'n gweithio am saith mlynedd pe bai'n cael priodi Rachel wedyn.

Cytunodd Laban ond ar ôl y saith mlynedd, twyllodd Laban Jacob trwy roi Lea'n wraig iddo yn lle Rachel! Doedd ar Jacob ddim eisiau priodi Lea!

**C Llanwch y bylchau.**

4

"Pam rwyt ti wedi fy nhwyllo?" gofynnodd Jacob.
"Fe weithiais i am s __ __ ___ mlynedd i gael priodi R __ ___ __ l."

Dywedodd Laban mai Lea ddylai gael priodi gyntaf am ei bod hi'n hŷn na Rachel. Druan â Jacob! Roedd wedi cael ei dwyllo, fel y twyllodd ef ei dad a'i frawd.

Yn aml, os byddwn ni'n gwneud rhywbeth drwg i rywun arall, mae rhywbeth drwg yn digwydd i ni hefyd! Mae'r Beibl yn dweud, "Bydd eich pechod yn eich dal". (Numeri 32: 23)

**C Rhowch gylch o gwmpas yr atebion i'r cwestiynau hyn:-**

Sawl merch oedd gan Laban?

3

**1 2 3**

Am sawl blwyddyn y gweithiodd Jacob cyn priodi Lea?

3

**5 6 7**



Roedd gan lawer o ddynion fwy nag un wraig bryd hynny, er nad dyna oedd bwriad Duw. Wythnos ar ôl iddo briodi Lea, priododd Jacob Rachel hefyd.

Yna bu'n rhaid iddo weithio i'w ewythr am saith mlynedd arall.

**cyfanswm**

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120